



## Ysgol Pentreuchaf

### 144. Polisi Tywydd Garw

#### Nod

Sicrhau fod pob plentyn ac oedolyn yn ddiogel beth bynnag fo'r tywydd. Sicrhau fod trefniadau addas yn eu lle i allgofio ysgol i ddilyn y canllawiau isod

#### Canllawiau

1. Cyfrifoldeb y pennaeth yw penderfynu a ddylid cau ai peidio. Mae'r AALI yn darparu canllawiau ond ni all aelod o staff yr Awdurdod gymryd y penderfyniad terfynnol. Bydd y penderfyniad yn ddibynol ar asesiad o'r ffactorau perthnasol gan gynnwys rhagolygon y tywydd, y sefyllfa yn ardal yr ysgol, sefyllfa aelodau staff a teithio a.y.y.b.
2. Pan gymerir penderfyniad i gau ysgol, dylai'r pennaeth ddilyn **CANLLAWIAU DEFNYDDIO'R SYSTEM YSGOLION WEDI CAU AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**.
4. Gan fod y tywydd yn amrywio cymaint o ardal i ardal, pan fydd tywydd garw, bydd y gofalwraig neu aelod o staff sy'n byw gyfagos yn ffonio'r pennaeth i'w gartref / ffon symudol ac yn ei hysbysu o'r sefyllfa parthed y tywydd ym Mhentreuchaf a'r cyffiniau.
5. Os bydd gwir bryder yn dilyn y sgwrs, bydd y pennaeth yn cysylltu gyda chwmni bysus (cludiant ysgolion) er mwyn cytuno ar yr hyn ddylid ei wneud.
6. Byddwn yn ceisio ffonio pob rhiant i'w hysbysu fod yr ysgol ar gau, neu bod plant i'w gyrru adref. Mae gennym rifau wrth gefn i bob plentyn.
7. Mewn achosion ble mae darparwyr cludiant yn hysbysu'r ysgol eu bod yn awyddus i gludo rhai plant yn fuan, dylid cydsynio i'r cais. Cyfrifoldeb y darparwr yw cludo'r plant adref yn ddiogel ac wrth wneud cais o'r fath, fe fydd y darparwr yn ymateb i rybuddion tywydd neu dystiolaeth uniongyrchol fod y sefyllfa yn gwaethygu. Os nad yw darparwr yn abl i ddarparu cludiant yn y bore oherwydd tywydd garw, yna ni fydd y cludiant hynny ar gael yn y prynhawn. Dylid hysbysu unrhyw rieni sydd wedi penderfynu cludo eu plant i'r ysgol dan amgylchiadau o'r fath bod angen iddynt drefnu i gludo'r plant adref yn y prynhawn gan na fydd y cludiant arferol ar gael.
8. Os penderfynir cau ysgol, dylai'r pennaeth hysbysu'r darparwyr cludiant o'r penderfyniad. Os methir a chysylltu â'r darparwyr, dylid hysbysu'r Awdurdod drwy'r Swyddfa Ardal.
7. Ble mae penderfyniad i beidio agor ysgol, dylai staff sydd yn medru teithio i'r ysgol **HEB ROI EU HUNAIN MEWN SEFYLLFA SY'N PERYGLU EU DIOGELWCH**, wneud hynny. Cyfrifoldeb y pennaeth, ar ôl asesu'r amgylchiadau penodol, fydd cyfarwyddo'r staff yma a oes angen iddynt aros ar safle'r ysgol ai peidio. Ble mae staff yn methu a chyrraedd eu hysgol, neu yn cael eu cyfarwyddo gan eu pennaeth i beidio a theithio, fe'u hannogir i gysylltu a'u hysgol leol i ofyn a allent fod o gymorth.

#### Casgliad

Yng Ngwynedd, mae cyfnodau o dywydd garw yn gymharol anghyffredin ac eithriadau yw'r adegau ble mae'n rhaid i ysgolion gau mewn amgylchiadau o'r math. Serch hynny, mae'n bwysig fod y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod trefniadau clir yn eu lle ar gyfer yr adegau ble mae'n rhaid i rai plant gael eu hanfon adref yn fuan neu lle gorfodir ysgol gyfan i gau oherwydd dtywydd garw i sicrhau diogelwch a lles yr holl blant a'r staff.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**